CYNGOR AM RHENT

Rydym yma i helpu chi

wrexham
COUNTY BOROUGH COUNCIL
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
wrecsam

Gwasanaethau Tai
Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam

A5 – 21032011

Mae'r daflen hon i helpu chi os y byddech yn cael trafferth talu eich rhent. Mae'n esbonio mwy am ôl-ddyledion, beth sydd angen i chi ei wneud i'w had-dalu a beth allem ni wneud i'ch helpu.

- Ydych chi'n cael trafferth talu eich rhent?
- Ydych chi'n cael trafferthion neu a oes unrhyw newidiadau i'ch hawliad Budd-dal Tai?
- Ydych chi wedi colli eich swydd yn ddiweddar neu wedi colli rhywfaint o'ch incwm?
- A yw eich perthynas wedi chwalu neu a yw eich partner wedi gadael?
- Oes gennych chi ddyledion eraill?

Rydym yn gwybod ei fod yn anodd talu eich taliadau rhent o bryd i'w gilydd. Y peth pwysig yw eich bod yn cysylltu â'ch Swyddfa Dai leol ar unwaith – cyn i'r dyledion fynd allan o reolaeth.

Yn aml, bydd ôl-ddyledion rhent yn cronni pan nad ydych yn hawlio'r holl fudd-daliadau y mae gennych hawl i'w cael. Gall hawlio Budd-dal Tai leihau'r rhent yr ydych yn ei dalu.

Methu â thalu eich rhent?

Mae goleuni ym mhen draw'r twnnel

- **Peidiwch ag anwybyddu'r** broblem. Y mwyaf y byddwch yn ei hanwybyddu y mwyaf y bydd yn gwaethygu.
- **Meddyliwch yn ofalus** cyn benthyg arian i dalu eich dyledion.
- Does dim ots pa mor **fawr neu fach yw'r ddyled**, rydym ni yma i'ch helpu a gallwn gynnig cyngor arbenigol.
- **Peidiwch â bod ofn** cyfaddef bod gennych broblemau ariannol. Mae digon o gyngor ar gael am **ddim**.

Os oes gennych ôl-ddyledion rhent mae angen i chi dalu'r rhain cyn gynted â phosibl. Rydym yn deall nad yw bob amser yn bosibl i chi glirio'r cwbl gydag un taliad, felly cysylltwch â ni i wneud cytundeb i dalu swm y gellwch chi ei fforddio.

Os ydych yn aros i gael Budd-dal Tai, **rhaid i chi dalu gymaint ag y gallwch** tuag at eich rhent. Dylai'r swyddfa Budd-dal Tai neu'r ganolfan gynghori leol allu dweud wrthych faint y dylech ei dalu.

Mae'n bwysig eich bod yn talu eich rhent – gellwch golli eich cartref fel arall!

Beth fyddwn ni'n ei wneud os nad ydych yn talu eich ôl-ddyledion rhent?

Ydych chi am fod yn rhydd rhag dyledion?

- Byddwn yn ysgrifennu atoch
- Byddwn yn ymweld â'ch cartref
- Yna byddwn yn eich gwahodd i gyfweliad. Dewch! Mae'r cyfweliad hwn er eich budd chi
- Byddwn yn cymryd camau cyfreithiol, fe all hyn arwain i chi golli eich cartref.

Os na fyddwch yn cysylltu â ni, ni fydd gennym unrhyw ddewis ond dechrau camau cyfreithiol. Yn yr achos llys bydd y Cyngor yn gofyn am orchymyn meddiant i'ch troi allan o'ch cartref. Ar ôl i'r Cyngor fynd â chi i'r llys, byddwn yn codi o leiaf £156 arnoch ar gyfer costau'r llys. Bydd hyn yn ychwanegol i'ch dyled.

Oeddech chi'n gwybod, o fis Ebrill i fis Awst 2010, aethom â 41 o denantiaid i'r llys a gwnaethom 51 o geisiadau i droi pobl allan o'u cartrefi. Gallai'r costau cyfreithiol ddod i gyfanswm o dros £251 i bob denant.

Beth sydd angen i chi ei wneud nesaf?

Rydym eisiau eich helpu i gadw eich cartref, nid ei golli!

- Defnyddiwch eich cyllideb bersonol (gweler y dudalen olaf) i **weithio allan faint o'r ôl-ddyledion ydych chi'n gallu eu talu** bob wythnos.
- **Peidiwch â bod ofn** cynnig swm yr ydych yn gallu ei fforddio.
- **Byddwch yn onest** ac esboniwch y sefyllfa, gan gynnig talu rhywbeth tuag at yr ôl-ddyledion bob wythnos.
- Os ydych eisiau cymorth, **cysylltwch â ni** am gyngor AR UNWAITH.

Beth allem ni ei wneud nesaf?

Rydym yn darparu gwasanaeth **cyfrinachol** a gallem:

- Drefnu **ymweliad cartref** gan Swyddog Tai.
- Gall **Swyddog Cefnogi Tenantiaethau** helpu chi gael yr holl fydd-daliadau yr ydych yn hawlio – gofynnwch am wybodaeth yn eich Swyddfa Dai leol.
- Rhoi **cyngor** i chi **am ddim**.
- Edrych ar **gyllideb** a thrafod **trefniadau** gyda chi.

Cofiwch, gallem wneud trefniadau a chynlluniau talu ar gyfer swm yr ydych **CHI'N** gallu ei **fforddio**.

Sut i dalu?

Gellwch dalu:

Trwy Ddebyd Uniongyrchol

Talwch yn unrhyw un o'r Swyddfeydd Tai lleol – gwelwch y cyfeiriadau gyferbyn

Ar y rhyngrwyd: www.wrecsam.gov.uk

Dros y ffôn (gwasanaeth 24 awr) Ffôn: 01978 292059

Talwch yn y Swyddfa Bost, Galw Wrecsam, Llyfrgell Rhiwabon neu unrhyw siop PayPoint

PEIDIWCH AG OEDI – CYSYLLTWCH Â NI HEDDIW

Swyddfeydd Tai Lleol:

- **Broughton** - 27 Ffordd Darby, Brynteg
  Ffôn: 01978 722020
- **Caia** – 7 Rhodfa Churchill, Wrecsam
  Ffôn: 01978 317040
- **Gwersyllt** - 2 Lôn yr Ysgubau, Gwersyllt
  Ffôn: 01978 722100
- **Plas Madoc** - 50 Peris, Plas Madoc, Wrecsam
  Ffôn: 01978 813000
- **Rhos** – Tŷ'r Orsaf, Heol yr Afon, Rhos
  Ffôn: 01978 832900

Cyngor pellach:

Llinell Gymorth Dyled - Ffôn: 0808 808 4000
Cyngor ar Bopeth, Wrecsam - Ffôn: 01978 364639
Budd-daliadau Tai – Ffôn: 01978 292033
neu cysylltwch â'ch Swyddfa Dai leol.

Leithoedd neu Fformatiau Eraill

Os hoffech gael y daflen hon mewn fformat gwahanol – er enghraifft Braille, ar dâp sain, ffurf copi testun yn unig neu mewn iaith arall, cysylltwch eich Swyddfa Dai Leol neu Gwasanaethau Tai, Ffordd Rhuthun, Wrecsam, LL13 7TU.
Rhif Ffôn: 01978 315300 Rhif Ffacs: 01978 315320
Ebost: housing@wrexham.gov.uk
Minicom: 01978 292067

Cyllideb Bersonol

Incwm:

	Wythnosol (£)	Misol (£)
Cyflog clir: chi/eich partner		
Cymhorthdal Incwm		
Credyd Teulu		
Budd-dal Plant		
Budd-daliadau/incymau eraill		
Pensiwn: gwladwriaeth/gwaith		
Cyfanswm eich incwm	**£**	**£**

Gwariant:

	Wythnosol (£)	Misol (£)
Rhent		
Treth y Cyngor		
Yswiriant		
Trydan		
Nwy		
Treath Dŵr, ag eraill		
Teledu (costau rhentu a thrwydded) /teledu digidol		
Bwyd, nwyddau'r cartref a phethau ymolchi		
Ffôn		
Cinio/costau'r ysgol		
Dillad ac esgidiau		
Benthyciadau/dyledion/cardiau siopau		
Eraill (hurbrynu/catalogau)		
Cyfanswm gwariant	**£**	**£**